

Archwiliad Ceidwad Ynni

Mae cael aer glân i'w anadlu yn bwysig i'n cadw'n iach.
Mae ein haer yn cynnwys llawer o nwyon anweledig sydd wedi'u cymysgu gyda'i gilydd, ac maen nhw'n ei gwneud hi'n bosibl i bobl, anifeiliaid a phlanhigion anadlu a thyfu.

Mae rhai pethau rydym ni'n eu gwneud yn creu mwy o nwyon nag rydym ni eu hangen, a gall hynny wneud ein haer yn afiach neu wneud i'n planed deimlo'n rhy gynnes. Gallwn weithiau arogl'r nwyon sy'n dod o geir, bysiau a faniau ac sy'n gwneud ein haer yn fudr.

Mae nwyon eraill yn anweledig, ond rydym ni'n gwybod eu bod yno, fel y rhai sy'n cael eu creu pan fyddwn ni'n defnyddio trydan i droi ein teledu neu ein goleuadau ymlaen.



Ceisiwch ateb y cwestiynau yn y tabl

Allwch chi ddod o hyd i unrhyw oleuadau sydd ymlaen ond nad oes angen iddynt fod ymlaen?	GALLWN	☹️	NA	😊
A oes unrhyw dapiau wedi'u troi ymlaen heb neb yn eu defnyddio?	OES	☹️	NAC OES	😊
Ydy rhai plant yn cerdded, beicio neu'n dod ar sgwter i'ch lleoliad?	YDYN	😊	NAC YDYN	☹️
A oes ceir neu fysiau y tu allan gyda'r injan ymlaen ond nad ydynt yn symud?	OES	☹️	NAC OES	😊
Ydy plant yn diffodd y tap pan fyddant yn brwsio eu dannedd, yn lle ei adael yn rhedeg?	YDYN	😊	NAC YDYN	☹️
A oes drysau neu ffenestri ar agor pan fydd y gwres ymlaen?	OES	☹️	NAC OES	😊
Oes cyfrifiaduron yn cael eu gadael ymlaen pan nad oes angen iddynt fod ymlaen?	OES	☹️	NAC OES	😊



Os oes gennych chi unrhyw atebion gyda wynebau trist, meddyliwch am beth allech chi ei newid yn eich lleoliad i'w gwneud yn wynebau hapus?

Beth ydym ni am ei newid?	Sut fyddwn ni'n ei newid?	Pa wahaniaeth wnaethom ni ar ôl i ni wneud y newid?